**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 30 Tachwedd 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd S M Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| H M Morris | V M Evans | C A Holley |
| P R Hood-Williams | Y V Jardine | E T Kirchner |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Mark Child | Aelod y Cabinet - Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| David Howes | Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): J W Jones a/ac G J Tanner
Aelodau Cyfetholedig(wyr): T Beddow

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Datganodd Chris Holley fudd personol.

## 2 Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

## 3 Cofnodion y Cyfarfod(ydd) Blaenorol

Cytunodd y panel fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

O dan faterion yn codi holodd y Panel ynghylch erthygl a ymddangosodd ar Wales Online ar 20 Tachwedd 2021, gan ei bod yn ymddangos nad oedd y cyfryngau wedi sôn am ymateb gan Ddinas a Sir Abertawe. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol y bu ymateb gan Ddinas a Sir Abertawe, ond ei fod wedi'i guddio ar y ddolen ar-lein. Cytunodd y Cyfarwyddwr i ddosbarthu copi o'r ymateb i'r Panel er gwybodaeth a dywedodd fod yr Awdurdod yn gweithio gyda'r unigolyn hwn a'r teulu cyn yr erthygl. Mae'r ymyriad yr oedd y teulu'n chwilio amdano bellach ar waith ac mae'r teulu'n hapus.

## 4 Cwestiynau gan y cyhoedd

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

## 5 Y diweddaraf am Reolaeth Pandemig COVID-19 a Monitro Perfformiad

Roedd Mark Child, Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Iechyd Cymunedol a David Howes, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, yn bresennol i friffio'r Panel ar y sefyllfa bresennol.

Pwyntiau i'w trafod:

- Mae cyfraddau heintio yn dal i fod ar lefel uchel yn lleol ond yn llawer is na chyfartaledd Cymru.  Nid oes digon o wybodaeth am yr amrywiolyn Omicron newydd eto.  Nid ydym yn gweld afiechydon anadlol eraill yn dod i'r amlwg ar hyn o bryd.

- Effaith gyffredinol COVID ar y gweithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw bod y gwasanaeth yn aml yn gorfod gweithredu gyda 40% o'r gweithlu’n absennol ar unrhyw ddiwrnod, yn enwedig ym maes gofal cartref.

- Mae'r galw am wasanaethau cymunedol yn uchel iawn ar hyn o bryd gan fod yr ôl-groniad o angen wedi llifo'n ôl i'r system.

- Nid oes gan ddarparwyr ddigon o staff i gyflawni eu teithiau ac mae'r Awdurdod yn gorfod casglu pecynnau ar gyfer gofal cynhaliol, ac mae'n gorfod defnyddio'r tîm ailalluogi i wneud hyn.  Ar hyn o bryd maent yn defnyddio staff gofal preswyl i ateb pob galw.

- Yn ystod y Pandemig, blaenoriaethwyd gwaith brys a chafodd rywfaint o'r gwaith mwy arferol ei oedi.  Nid oedd cyfle i ddal i fyny ar yr ôl-groniad, sydd wedi mynd yn fwy ac yn fwy.  Mae'r Awdurdod wedi dechrau comisiynu rhywfaint o'r ôl-groniad hwn i ddarparwr allanol er mwyn dal i fyny â gwaith cyn gwanwyn 2022.

- Dechreuwyd gweld rhywfaint o bwysau ar y gwasanaethau iechyd meddwl oherwydd nifer cyfyngedig o staff sy'n gysylltiedig ag absenoldebau staff yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.  Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gallu rhoi sicrwydd ynghylch y rhan fwyaf o ymyriadau brys.

- Rhoddwyd sylw yn y wasg genedlaethol i adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o effeithiolrwydd cymorth Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd i ofalwyr.  Roed dyn cyflwyno darlun gonest, sef nid yw cystal ag y mae angen iddo fod.  Yn yr hinsawdd sydd ohoni, nid ydym yn gallu mynd i'r afael â gwendidau strwythurol sylfaenol ond rydym wedi gallu meddwl am amrywiaeth o ffyrdd eraill o gefnogi gofalwyr.

- Mae gan y Gyfarwyddiaeth ryw lefel o anhawster ym mhob maes.  Mae Llywodraeth Cymru’n ymwybodol o'r sefyllfa ac yn ceisio gwneud yr hyn y gall. Mae trafodaethau’n cael eu cynnal ar gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth symud ymlaen a sut y gallai hyn fod yn adlewyrchu'r hyn rydym yn mynd drwyddo a'r hyn rydym yn ei ddysgu’n awr.

- Ar hyn o bryd nid oes gennym ddigon o bobl ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn blaenoriaethu diogelu a lleihau o fewn terfynau yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei ddarparu i geisio dod dros hyn.

- Gwnaeth y panel sylwadau mewn perthynas â gofalwyr, gan ddiolch i'r gweithlu a'r holl deuluoedd a ffrindiau sydd wedi dod i’r adwy ac wedi dangos ymroddiad llwyr mewn cyfnod mor anodd. Mae'r panel yn credu y gwelir y gwir ddarlun o’r effaith ar ofalwyr yn y chwe mis i'r flwyddyn nesaf wrth i ni adfer o'r pandemig.

6 **Er gwybodaeth**

Nodwyd y Blaenraglen Waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.40 pm.